Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth am eich apwyntiad ar gyfer Asesiad Cydbwysedd

# Gwasanaeth Awdioleg Gwent

**Cyflwyniad**

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu'r gofal y byddwch yn ei dderbyn pan fyddwch yn mynychu'r Adran Awdioleg ar gyfer Asesiad Cydbwysedd.

Byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod yn cydsynio i dderbyn y triniaethau fydd yn cael eu cynnal pan fyddwch yn mynychu'r apwyntiad. Mae croeso i chi ddweud yn ystod yr apwyntiad os nad ydych yn dymuno i'r profion barhau.

Rydym yn eich annog i ddod â ffrind neu aelod o'r teulu i bob apwyntiad. Rhowch wybod i ni dros y ffôn neu pan fyddwch yn cyrraedd y clinig os byddai'n well gennych gael eich gweld ar eich pen eich hun.

Os oes angen unrhyw gymorth cyfathrebu arnoch, ffoniwch yr adran gyda manylion eich dewis iaith a byddwn yn gwneud ein gorau i drefnu hyn ar eich cyfer.

Bydd eich apwyntiad gydag Awdiolegydd cwbl gymwys sydd â phrofiad o brofi gweithrediad cydbwysedd.

## Gwybodaeth Bwysig

**Cyn eich apwyntiad:**

- Rydym yn argymell na fyddwch yn gyrru yn syth ar ôl eich apwyntiad. Efallai yr hoffech drefnu i rywun ddod gyda chi.

**48 awr cyn eich apwyntiad**

- Rhowch y gorau i gymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn i reoli eich pendro. Parhewch i gymryd meddyginiaeth ar gyfer cyflyrau eraill fel arfer.
- Peidiwch â chymryd cyffuriau nac alcohol.

**Ar ddiwrnod yr apwyntiad:**

- Peidiwch â gwisgo colur llygaid.

**Ar ôl yr apwyntiad**

- Gallwch gymryd unrhyw feddyginiaeth a roddwyd i chi ar bresgripsiwn ar gyfer eich pendro.

- Am hyd at ychydig oriau, efallai y byddwch yn teimlo'n ansefydlog, ond ar ôl y cyfnod hwn dylech allu parhau â'ch trefn arferol.

**Yn ystod eich apwyntiad cyntaf**

Bydd yr Awdiolegydd yn gofyn cwestiynau i chi mewn perthynas â'ch clustiau, eich iechyd a'ch cydbwysedd er mwyn deall y problemau yr ydych yn eu hwynebu. Mae'n bwysig eich bod yn esbonio'r rhesymau pam eich bod wedi dod am asesiad er mwyn i'r awdiolegydd allu teilwra'r apwyntiad i'ch anghenion chi. Bydd yr Awdiolegydd hefyd yn trafod y sefyllfaoedd lle mae eich cydbwysedd yn achosi problem. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i benderfynu sut y gallwn eich cefnogi.

Yn ystod eich apwyntiad, byddwn yn cynnal y profion canlynol i gyd neu rai ohonynt:

**Profion Cydbwysedd Sefyll**

Bydd yr Awdiolegydd yn eich arsylwi yn sefyll gyda'ch llygaid ar agor ac ar gau a gyda'ch traed mewn safleoedd gwahanol.

**Fideo-nystagmograffi**

Nid yw'n bosibl cofnodi gwybodaeth yn uniongyrchol o'r organau cydbwysedd oherwydd eu bod wedi'u lleoli'n ddwfn y tu mewn i'ch pen. Yn lle hynny, rydym yn darganfod gwybodaeth am eich organau cydbwysedd o'ch llygaid, oherwydd bod cysylltiad rhyngddynt. Byddwch yn gwisgo gogls sy'n cynnwys camerâu i wylio a chofnodi symudiadau eich llygaid.
Ar gyfer rhai o'r profion byddwn yn gofyn i chi edrych ar oleuadau, a chyda rhai, bydd eich llygaid wedi'u gorchuddio. Os na fyddwch yn teimlo eich bod yn gallu gwisgo'r gogls, gallwn ddefnyddio synwyryddion gludiog fydd yn cael eu rhoi ar eich wyneb i gofnodi symudiadau eich llygaid yn lle hynny.

**Prawf Dix Hallpike**

Mae hyn yn golygu symud o eistedd i orwedd ac yna i eistedd eto. Bydd yr Awdiolegydd yn eich cefnogi tra byddwch yn symud a bydd yn edrych ar eich llygaid tra byddwch yn gorwedd. Defnyddir hwn i chwilio am fath cyffredin o bendro o'r enw Pendro Lleoliadol Hyrddiog Anadwythig (BPPV). Os gwelwn fod gennych BPPV, gallwn argymell triniaeth ar unwaith.

Yn dilyn eich apwyntiad cyntaf, efallai y byddwn yn argymell dychwelyd i'r Adran Awdioleg ar gyfer profion pellach. Cewch gyfle i benderfynu a ydych yn hapus i fwrw ymlaen. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys un o'r canlynol:

**Prawf clyw**

Gofynnir i chi wrando ar synau trwy glustffonau a osodir dros eich clustiau ac ymateb pan fyddwch yn eu clywed. Yna gall yr Awdiolegydd asesu'r synau tawelaf y gallwch eu clywed.

**Prawf calorig**

Mae hyn yn ein galluogi i recordio o organ cydbwysedd pob clust ar wahân a'u cymharu i weld a yw un ddim yn gweithio'n iawn. Yn ystod y prawf, byddwch yn gwisgo'r gogls i gofnodi symudiadau eich llygaid a byddwn yn defnyddio dŵr i gynhesu neu oeri pob clust yn ei dro.

**'Vestibular Evoked Myogenic Potential' (VEMP)**

Mae hyn yn ein galluogi i recordio o organ cydbwysedd pob clust ar wahân a'u cymharu i weld a yw un ddim yn gweithio'n iawn. Nid yw mor ddibynadwy â'r prawf calorig, ond gall ganfod rhai problemau cydbwysedd a gellir ei ddefnyddio gyda phobl sydd yn methu cael dŵr yn eu clustiau. Yn ystod y prawf, byddwch yn gwrando ar synau clicio uchel, tra bod y cyfrifiadur yn cofnodi adwaith cyhyr yn eich gwddf.

**Yn ystod yr apwyntiad, os ydych yn ansicr am unrhyw beth, cofiwch ofyn**.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English**